**Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg / Strategic Director of Social Care and Education Services**
*Jenny Williams*

**Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) / Head of Education Services (Chief Education Officer)**
*Dr Lowri Brown*

**Cyfeiriad Post / Postal Address:** Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN
PO Box 1, CONWY, LL30 9GN

**Ymwelwch â ni / Visit us at:** Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn. LL29 7AZ
Coed Pella, Conway Road, Colwyn Bay. LL29 7AZ

Gofynnwch am / Please ask for: **Dr Lowri Brown**
☎ **01492 575599**
**dr.lowri.brown@conwy.gov.uk**
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: 21 Hydref 2020

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Byddwch yn ymwybodol yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar 19 Hydref bod cyfnod clo byr am bythefnos yn dod i rym am 6pm nos Wener, 23 Hydref 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd mai plant fyddai eu prif flaenoriaeth os byddai angen cyfyngiadau pellach, ac o ganlyniad wedi ystyried cadw'r amhariad lleiaf ar addysg.

Gobeithio y bydd y wybodaeth ganlynol yn helpu i egluro'r trefniadau ar waith yng Nghonwy i helpi i leihau unrhyw amhariad ar addysg eich plentyn/plant.

**Trefniadau Presenoldeb yn yr Ysgol**

Bydd y grwpiau canlynol o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol fel arfer ar ôl hanner tymor:

- Holl ddisgyblion Ysgol Gynradd
- Holl ddisgyblion Ysgol y Gogarth
- Disgyblion oed uwchradd ym Mlynyddoedd 7 ac 8
- Disgyblion yn mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion (gan gynnwys Blynyddoedd 9 ac uwch)
- *Bydd disgyblion sy'n eistedd arholiadau TGAU a mynediad i Brifysgol yn gallu gwneud hynny yn eu hysgol/coleg.*

Bydd pob disgybl arall yn parhau â'u haddysg o gartref yr wythnos yn dechrau 2 Tachwedd.

Gall ysgolion unigol hefyd gysylltu â chi yn uniongyrchol ynglŷn â threfniadau ar gyfer dysgwyr agored i niwed ym Mlynyddoedd 9 ac uwch.

**Dysgu o Bell**

Bydd dysgu o bell a chefnogaeth ar gael i holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 9 ac uwch nad ydynt yn dychwelyd i'r ysgol yn syth ar ôl y gwyliau hanner tymor. Mae canllawiau ar y disgwyliadau sylfaenol ar gyfer dysgu yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Mae gwaith hefyd yn parhau i sicrhau fod gan bob disgybl fynediad i offer digidol fel y gallant gael mynediad i ddysgu o bell. Cysylltwch ag ysgol eich plentyn yn uniongyrchol os byddwch angen unrhyw gefnogaeth gyda hyn neu os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Bydd trefniadau dysgu o bell yn amrywio rhwng ysgolion felly cysylltwch â'ch ysgol yn uniongyrchol ar ôl yr hanner tymor os byddwch angen arweiniad neu gefnogaeth bellach.

**Plant ym mlynyddoedd 9-13 sydd angen cefnogaeth ychwanegol o bosibl**

Mae ysgolion yn gweithio i nodi'r plant fyddai'n cael budd eithriadol drwy gefnogaeth ychwanegol. Bydd hyn yn cael ei wneud gyda phlant a theuluoedd, fel y gellir deall eu hanghenion a'u darparu drwy'r gefnogaeth fwyaf priodol. Bydd y plant hyn yn cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd gan yr ysgolion unigol. Ystyrir sut y gellir lleihau risgiau drwy'r gefnogaeth fwyaf priodol er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn ddiogel, yn cael eu clywed, eu meithrin a'u datblygu.

**Cludiant**

Os yw eich plentyn yn derbyn cludiant i'r ysgol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac wedi cael gwybod bod eu grŵp* yn dal angen mynd i'r ysgol yn ystod cyfnod clo byr Llywodraeth Cymru yna cysylltwch â'ch cwmni tacsi i drefnu os gwelwch yn dda. Os nad ydych yn siŵr pa gwmni sy'n cludo eich plentyn gallwch gysylltu â'r tîm cludiant i'r ysgol ar 01492 577899.

Bydd bysiau ysgol yn rhedeg fel arfer.

(*Bydd ysgolion uwchradd yn ailagor ar ôl hanner tymor i blant ym mlynyddoedd 7 ac 8. Bydd disgyblion yn gallu dod i mewn i eistedd arholiadau)

**Prydau Ysgol am Ddim**

Mae trefniadau prydau ysgol am ddim eisoes wedi eu gwneud ar gyfer hanner tymor a byddant yn parhau ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 9 ac uwch am drydedd wythnos. Bydd disgyblion yng Nghonwy sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn derbyn taliadau uniongyrchol ar gyfer y pythefnos hanner tymor a bydd hyn yn cael ei ymestyn am wythnos ychwanegol i'r dysgwyr hynny ym Mlynyddoedd 9 ac uwch.

Bydd taliadau yn cael eu gwneud i gyfrifon banc Rhieni/Gofalwyr ar 5/11/20.

Rydym yn deall bod hwn yn parhau'n amser pryderus i bawb ac rydym eisiau eich sicrhau ein bod wedi ymrwymo i gydweithio i gadw ein plant, eu teuluoedd a'n cymunedau yn ddiogel yng Nghonwy.

Gweler hefyd y ddolen i wefan Llywodraeth Cymru a all fod yn ddefnyddiol: https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin

Yn gywir



**Dr Lowri Vaughan Brown**
**Prif Swyddog Addysg/Chief Education Officer**
**Pennaeth Gwasanaethau Addysg/ Head of Education Services**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi. Gwnewch yn siŵr fod unrhyw ohebiaeth wedi'i labelu'n glir gydag enw, teitl ac/ neu enw llawn yr Adran fel y nodir uchod.

We welcome correspondence in Welsh. We will respond to any correspondence in Welsh which will not lead to a delay. Please ensure any correspondence is clearly labelled with the name, title and/or full name of the department as detailed above.